**Datganiad Polisi Cyhoeddus – Crynodeb Gweithredol**

# Cyflogaeth a Chyfraniadau

**Ebrill 2026**

## Cynnwys

Diolchiadau ................................................................ **Error! Bookmark not defined.**
Cefndir......................................................................... **Error! Bookmark not defined.**
Rhestr o gynigion polisi cyhoeddus ......................................................................... 5

# Diolchiadau

Hoffai Age Cymru ddiolch i Marharyta Hainiieva o Brifysgol Abertawe am ei chymorth wrth gynhyrchu'r datganiad polisi hwn.

# Cefndir

Mae Age Cymru’n credu bod gan bob person werth cynhenid, waeth beth fo'u hoedran, eu gallu neu unrhyw nodweddion personol eraill. Serch hynny, weithiau mae'n ddefnyddiol meintioli maint y cyfraniadau a wneir gan bobl hŷn er mwyn mynd i'r afael â rhagfarn oed neu agweddau negyddol tuag at genedlaethau hŷn. Mae hyn yn arbennig o wir am y cyfraniad economaidd a wneir gan bobl hŷn yng Nghymru.

Ar ôl ystyried y costau o sicrhau lles poblogaeth sy'n heneiddio, mae pobl hŷn yn dal i wneud cyfraniad net o dros £6 miliwn y dydd i economi Cymru.[1] Mae llawer yn gwneud hynny trwy waith cyflogedig, gan gynnwys y nifer cynyddol o weithwyr hŷn sy'n cael eu cyflogi y tu hwnt i oedran Pensiwn y Wladwriaeth, neu sy'n dychwelyd i'r gweithlu ar ôl ymddeol (boed trwy ddewis neu fel arall).[2] Mae pobl hŷn hefyd yn cyfrannu at yr economi drwy wirfoddoli a thrwy ddarparu gofal di-dâl i deulu, ffrindiau a chymdogion, er nad yw’r pethau hyn yn cael eu cydnabod yn aml.

Er gwaethaf eu cyfraniad economaidd sylweddol, mae pobl hŷn yng Nghymru yn parhau i wynebu llawer o rwystrau sy'n ei gwneud hi'n anoddach iddynt fedru gweithio, gwirfoddoli neu gyflawni cyfrifoldebau gofalu. Un o'r heriau mwyaf parhaus yw rhagfarn oed yn y maes recriwtio ac mewn gweithleoedd, ac mae tua 10% o bobl hŷn yn wynebu rhagfarn oed yn y gwaith.[3] Mae pobl hŷn yn dal i gael eu hanwybyddu gan recriwtwyr, mae eu ceisiadau am hyfforddiant yn cael eu hanwybyddu, neu yn destun sylwadau a jôcs rhagfarnllyd. Mae agweddau sy’n seiliedig ar ragfarn oed yn rhan o ddiwylliant a hyd yn oed polisïau llawer o gwmnïau, er enghraifft cwmnïau rhentu ceir sy'n gwrthod rhentu cerbydau i bobl dros oedran penodol, waeth beth fo'u profiad neu gymhwysedd.

Y tu hwnt i ragfarn oed, mae pobl hŷn hefyd yn aml yn cael eu rhwystro gan ddiffyg hyblygrwydd mewn cyflogaeth (e.e., cael yr opsiwn o oriau hyblyg neu gywasgedig, gweithio gartref neu ymddeol yn raddol), diffyg cyngor a chefnogaeth wrth ymddeol, a pherygl uwch o gael eu heffeithio gan salwch neu anableddau hirdymor yn ystod eu blynyddoedd olaf o weithio. Mae hyd yn oed gwirfoddolwyr a gofalwyr di-dâl yn wynebu rhwystrau wrth gyfrannu at yr economi, gan gynnwys terfynau oedran llym ar wirfoddoli a diffyg gwybodaeth gyhoeddus am hawliau gofalwyr i gymorth ariannol a mathau eraill o gymorth.

---

[1] Yr Athro Rhiannon Tudor Edwards, Dr Llinos Haf Spencer, Lucy Bryning, Bethany Fern Anthony, *Living well for longer: The economic argument for investing in the health and wellbeing of older people in Wales*, Prifysgol Bangor: Canolfan Economeg Iechyd a Gwerthuso Meddyginiaethau (2018).
[2] ‘Deall Poblogaeth Cymru sy’n Heneiddio: Ystadegau Allweddol’, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (June 2024), https://olderpeople.wales/wp-content/uploads/2026/03/Deall-Poblogaeth-Cymru-syn-Heneiddio-Ystadegau-Allweddol-2026-1.pdf.
[3] *Beth sy'n bwysig i chi? Profiadau cyfredol pobl 50 oed neu'n hŷn yng Nghymru* (Rhifynnau Awst 2024 a Medi 2025), Age Cymru (2024/2025), https://www.agecymru.cymru/ein-gwaith/polisi/arolwg-blynyddol/.

Mae Age Cymru yn credu y gellid gwneud llawer mwy i gefnogi pobl hŷn wrth iddynt gyfrannu at economi Cymru. Mae'r datganiad polisi hwn yn awgrymu camau y gellid eu cymryd gan Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, cyflogwyr, recriwtwyr a sefydliadau eraill i gael gwared ar rwystrau i gyflogaeth pobl hŷn, hunangyflogaeth, gwirfoddoli a gofal di-dâl. Nid yw hwn yn rhestr ragnodol o ofynion, ond yn hytrach mae'n lasbrint ar gyfer sut y gall llunwyr polisi a chyflogwyr greu Cymru sy'n cydnabod y cyfraniad economaidd enfawr a wneir gan bobl hŷn, ac sy'n eu cefnogi'n weithredol.

# Rhestr o gynigion polisi cyhoeddus

## 1. Cyflogaeth

- Dylai Llywodraeth Cymru ehangu a hyrwyddo rhaglenni ailhyfforddi fel y Rhaglen Sgiliau Hyblyg, yn ogystal ag annog cyflogwyr i gyfeirio gweithwyr hŷn at raglenni o'r fath. Fel rhan o'r ymdrech hon, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod cyflogwyr yn hysbysu eu gweithwyr hŷn am eu hawliau i batrymau gweithio hyblyg ac addasiadau rhesymol.

## 2. Rhagfarn oed mewn cyflogaeth

- Dylai Llywodraeth Cymru a'r trydydd sector weithio gyda'i gilydd i herio gwahaniaethu ar sail oedran yn y gweithle drwy addysgu cyflogwyr a rheolwyr ynghylch stereoteipiau am oedran a gwella mynediad at iawndal lle mae gweithwyr hŷn wedi cael eu trin mewn modd gwahaniaethol.
- Dylai Llywodraeth y DU orfodi Deddf Cydraddoldeb 2010 yn llym i leihau gwahaniaethu ar sail oedran yn y gweithle.
- O ystyried gweithlu sy'n heneiddio yn y DU, rhaid i gyflogwyr gydnabod bod gan weithwyr hŷn yn aml y sgiliau a'r arbenigedd angenrheidiol i ychwanegu gwerth at eu busnes, a barnu pobl ar sail eu priodoleddau unigol yn hytrach na'u hoedran. Mae gan Lywodraeth Cymru a phartneriaid y trydydd sector rôl i'w chwarae wrth hyrwyddo sgiliau ac arbenigedd gweithwyr hŷn.
- Dylai recriwtwyr roi blaenoriaeth i sgiliau ac ymddygiadau manwl mewn hysbysebion swyddi, yn hytrach na mathau o bersonoliaeth gyffredinol.
- Rhaid i gynghorwyr gyrfaoedd mewn unrhyw sefydliad gael eu hyfforddi'n addas i ymdrin â materion sy'n effeithio ar bobl hŷn yn benodol. Mae hyn yn cynnwys cydnabod heriau sy'n rhwystro pobl hŷn rhag ailymuno â'r gweithlu.

## 3. Adolygiadau canol gyrfa (MCRs) ac ail-gyflogi

- Rhaid i Lywodraeth Cymru gymryd agwedd ragweithiol at weithredu adolygiadau canol gyrfa ymhlith gweithwyr 50 oed a throsodd yng Nghymru. Dylai hyn gynnwys gweithio gyda gwasanaethau cyngor gyrfa a chyflogwyr i ddarparu a hyrwyddo adolygiadau, yn ogystal â chymryd camau i normaleiddio eu defnydd ymhlith gweithwyr hŷn.
- Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu system ar gyfer monitro effeithiolrwydd adolygiadau canol gyrfa wrth iddynt gael eu cyflwyno ar draws y gweithlu yng Nghymru.

## 4. Hunangyflogaeth

- Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu ymchwil i brofiadau a heriau pobl hunangyflogedig dros 50 oed yng Nghymru.

## 5. Cynllunio ar gyfer ymddeol

- Dylai cyflogwyr gysylltu â gweithwyr hŷn i drafod ymddeoliad a phensiynau o leiaf ddeng mlynedd cyn oedran Pensiwn y Wladwriaeth.
- Dylai cyflogwyr gynnig opsiynau gweithio hyblyg i weithwyr hŷn i optimeiddio eu sefyllfa ariannol a'u hamgylchiadau gwaith yn y cyfnod cyn ymddeol.
- Dylai Llywodraeth y DU wella'r broses o ymddeol, gan gynnig mwy o gymorth ariannol pwrpasol i'r rhai nad ydynt wedi cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth eto, ond nad ydynt yn gallu gweithio oherwydd rhesymau iechyd.
- Dylai Llywodraeth y DU ystyried caniatáu i bobl gael mynediad cynnar i'w Pensiwn y Wladwriaeth os ydynt o fewn tair blynedd i oedran Pensiwn y Wladwriaeth ond nad ydynt yn gallu gweithio oherwydd cyflyrau iechyd hirdymor neu anableddau.
- Dylai Llywodraeth y DU ystyried y gyfradd uchel o broblemau iechyd corfforol ac anableddau ymhlith gweithwyr hŷn wrth gynllunio newidiadau i oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn y dyfodol.

## 6. Gwirfoddoli

- Dylai sefydliadau gael gwared ar bob terfyn oedran o gyfleoedd gwirfoddoli, oni bai bod risg wirioneddol i iechyd a/neu les cyfranogwr.
- Dylai sefydliadau asesu a gweithio i gael gwared ar unrhyw rwystrau corfforol i gyfleoedd gwirfoddoli.
- Dylai sefydliadau sy'n recriwtio gwirfoddolwyr ystyried sut y gallant ddatblygu ystod o opsiynau gwirfoddoli sy'n cydnabod dymuniadau ac anghenion amrywiol pobl hŷn, yn ogystal â'r profiad gwerthfawr sydd gan bobl hŷn.
- Dylai awdurdodau lleol gynnig cofrestrau o gyfleoedd gwirfoddoli yn eu hardaloedd i helpu i baru cyfleoedd â sgiliau darpar wirfoddolwyr.
- Dylai Llywodraeth Cymru annog cyflogwyr i ystyried eu cyfrifoldebau corfforaethol drwy gefnogi gweithwyr i wirfoddoli.
- Dylai cyflogwyr gyfeirio gweithwyr at sefydliadau defnyddiol sy'n cynnig cyfleoedd i wirfoddoli ar ôl i unigolion ymddeol.
- Rhaid i gyrff cyhoeddus a chyllidwyr eraill sicrhau bod costau gwirfoddoli o fewn rhaglenni a ariennir yn cael eu costio'n briodol ar gyfer lefel y gwirfoddoli sy'n cael ei ddarparu. Mae hyn yn cynnwys costau hyfforddiant, offer, teithio, ac ati. Er bod gwirfoddoli'n rhywbeth sy'n cael ei roi am ddim, mae ‘na gostau cysylltiedig.

## 7. Gofalu

- Diwygio'r system fudd-daliadau i sicrhau bod gofalwyr yn cael cefnogaeth ddigonol yn eu gwaith. Gallai hyn gynnwys cyflwyno atodiad ar gyfer gofalwyr i gynyddu'r gyfradd sylfaenol ar gyfer pob gofalwr sy'n derbyn Lwfans Gofalwr.

- Dylai pobl sy'n gweithio ond sydd hefyd â chyfrifoldebau gofalu gael pum diwrnod o absenoldeb gofalwyr â thâl, gyda'r posibilrwydd o gymryd cyfnod hirach o wyliau di-dâl ychwanegol.
- Rhaid i Lywodraeth Cymru, y trydydd sector a gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol wella ymdrechion i hyrwyddo dealltwriaeth y cyhoedd o ofal di-dâl a'r hawliau sy'n gysylltiedig â'r math hwn o ofal.
- Dylai'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ailgyflwyno enghreifftiau o ofal di-dâl i'r cyfrifiad.